



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Cwestiynau Cyffredin: Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

Mae'r **Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (y Gronfa)** yn grant a ariennir o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. O dan y Gronfa hon, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau i gyllido amrywiaeth eang o ymyriadau sy'n ceisio trechu tlogi a lleihau effaith tlogi mewn cymunedau gwledig. O fynd i'r afael ag effeithiau tlogi, bydd hefyd yn gwella'r amodau sy'n gallu arwain at fwy o swyddi a thwf yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn rhestr o "Gwestiynau Cyffredin". Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Cwestiynau Cyffredin yn ystod cyfnod gweithredu'r Gronfa. Bydd hon yn ddogfen 'fyw'. Ni fydd yn disodli Nodiadau Cyfarwyddyd y Rhaglen nac unrhyw ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r Gronfa.

Cam Datgan Diddordeb

Os oes gennych gwestiwn am y cam Datgan Diddordeb, e-bostiwch:

RCDF@gov.uk

Cwestiwn:	Rydym yn y broses o ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau. Y gymuned sy'n defnyddio'r asedau ac mae angen eu gwella. Deallaf y bydd modd, o bosibl, gwneud cais am arian drwy'r Gronfa hon. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu rhoi cyngor imi ynghylch y dyddiadau y gellir cyflwyno ceisiadau, ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod o gymorth.
Ateb:	Bydd y broses ymgeisio ar gyfer y Gronfa hon (yr un fath â phob un o gynlluniau economaidd-gymdeithasol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020) yn broses dau gam. Y cam cyntaf fydd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb. Gwahoddir yr ymgeiswyr sy'n llwyddo gyda'u Datganiadau o Ddiddordeb i gwblhau'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn. Rhaid i bob ymgeisydd drafod ei syniadau a'i gynigion gyda Grŵp Gweithredu Lleol LEADER ei ardal cyn cyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru. Mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod y Grwpiau Gweithredu Lleol yn gallu gwirio a yw'r syniadau a'r cynigion yn cydymffurfio â blaenoriaethau'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer eu hardal. Hefyd, os oes angen, bydd modd iddynt gynnig cymorth i lunio'r cynigion.
Cwestiwn:	Ar ba gam y caiff y Datganiadau o Ddiddordeb a'r cais llawn eu hanfon at y Grŵp Gweithredu Lleol er mwyn iddo ei hystyried? O gofio bod angen anfon y Datganiad o Ddiddordeb a'r cais llawn at Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol, a yw Llywodraeth Cymru yn eu hanfon at y Grwpiau Gweithredu Lleol neu a ddisgwylir i'r ymgeisydd wneud hynny cyn cyflwyno'r ceisiadau i Lywodraeth Cymru?
Ateb:	Rhaid i bob ymgeisydd drafod ei syniadau a'i gynigion gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol ei ardal cyn cyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru.. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n swyddogol i wirio bod y Grwpiau Gweithredu Lleol wedi bod yn rhan o'r gwaith yn ystod cam cyflwyno cais - bydd angen i'r Grŵp Gweithredu Lleol lenwi ffurflen (templod safonol).
Cwestiwn:	Ym mhle y gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth am feini prawf y Datganiadau o Ddiddordeb ac am y themâu penodol sydd ar agor ar hyn o bryd.
Ateb:	Bydd y Gronfa hon yn rhoi arian ar gyfer amrywiaeth eang o ymyriadau sy'n ceisio trechu tlogi a lleihau effaith tlogi mewn cymunedau gwledig, gan

Fersiwn: 2

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 18

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 2 of 7

	<p>wella'r amodau sy'n gallu arwain at fwy o swyddi a thwf yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r ddogfen ganlynol "Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig: Meini Prawf a Ffurflen Gais" yn dangos beth sydd ar "agor" ar gyfer y cylch hwn o Ddatganiadau o Ddiddordeb, a hefyd y meini prawf sy'n berthnasol. Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu hasesu, eu sgorio a'u rhoi yn nhrefn teilyngdod yn unol â'r meini prawf dethol sydd wedi'u cyhoeddi. Bydd y cynigion yn cael eu dethol yn ôl y drefn honno hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu fod y terfyn uchaf o ran nifer y ceisiadau wedi'i gyrraedd.</p>
Cwestiwn	Pa fath o gostau sy'n gymwys?
Ateb:	<p>Mae'r rhan fwyaf o'r arian sydd ar gael o dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wedi'i neilltuo ar gyfer buddsoddi cyfalaf e.e. adeiladau neu i brynu offer/cerbydau. Ni chawn ariannu costau 'refeniw' fel costau rhedeg sefydliad, cyflogau staff cyffredinol neu gostau rheoli. Darllenwch baragraffau 51-54 canllaw'r cynllun:</p> <p>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/rural-community-development-fund/?skip=1&lang=cy</p>
Cwestiwn:	A yw adeiladau newydd yn gymwys o dan y Gronfa Ddatblygu?
Ateb:	Mae hi'n bosib ariannu adeilad newydd, ond gallai swm yr arian sydd ar gael gyfyngu ar y disgwyliadau o'r hyn y gellid ei gyflawni.
Cwestiwn:	Mae tudalen y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ar wefan Llywodraeth Cymru yn nodi ' <i>Gwasanaethau Sylfaenol ac Adfywio Pentrefi mewn Ardaloedd Gwledig</i> '. A yw hynny'n golygu mai dim ond ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r thema hon y gellir gwneud cais yn y cylch presennol? Os felly, ai hwn fydd yr unig gyfle i wneud cais am arian o'r Gronfa ar gyfer y gweithgareddau hyn, neu a fydd cylch arall ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adfywio pentrefi mewn ardaloedd gwledig?
Ateb:	Na, teitl y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Mesur 7 yw "Gwasanaethau Sylfaenol ac Adfywio Pentrefi mewn Ardaloedd Gwledig" ac mae'n cwmpasu'r holl is-fesurau. Mae Meini Prawf y Datganiadau o Ddiddordeb a'r Ffurflen Gais yn nodi'r hyn y gellir gwneud cais amdano yn ystod y cyfnod presennol.
Cwestiwn:	Yn y nodiadau cyfarwyddyd a gyhoeddwyd, nodir bod yna uchafswm wedi'i bennu ar gyfer y grantiau a roddir er mwyn buddsoddi mewn seilwaith ar raddfa fach. A oes yna unrhyw uchafsymiau eraill?
Ateb:	Grant o £128,000 yw'r uchafswm a roddir ar gyfer prosiectau sy'n costio cyfanswm o £160,000 ac mae'n gymwys i Is-fesurau 7.2, 7.3, 7.4, 7.5, 7.7 a hefyd y rhan o is-fesur 7.6 sy'n ymwneud â buddsoddi. Gall ymgeiswyr gyflwyno cynifer o geisiadau ag y mynnant (ar gyfer cynigion gwahanol) ac ar gyfer Is-fesurau gwahanol. Er hynny, caiff cyfanswm pob prosiect a gyflwynir mewn Datganiad o Ddiddordeb ei gyfyngu i gyfanswm o £160,000.
Cwestiwn:	Mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn nodi mai cronfa fuddsoddi yw'r Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig; mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn cwmpasu'r cyfraddau ar gyfer gwaith gwirfoddolwyr di-dâl. Gan mai gweithgareddau

	refeniw yw'r rhain, a yw costau staff ac amser gwirfoddolwyr yn cyfrif fel cyfraniad cyfatebol?
Ateb:	Dim ond costau staff ac amser gwirfoddolwyr sy'n berthnasol i'r gweithgareddau sy'n gymwys o dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig y gellir eu cynnwys. Er enghraifft, os yw grŵp cymunedol yn gwneud cais i addasu adeilad er mwyn creu lle i gynnal meithrinfa, yna byddai'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei dreulio'n gwneud gwaith llafur a/neu waith pensaernïol/dylunio yn gymwys i'w nodi fel cyfraniadau ar ffurf gwasanaethau. Er hynny, ni fyddai amser gwirfoddol i ysgrifennu'r ffurflen gais gychwynnol nac amser i redeg y feithrinfa yn yr adeilad newydd yn gymwys.
Cwestiwn:	O edrych ar y meini prawf cyfredol ar gyfer Datganiadau o Ddiddordeb, a yw'n ofynnol bod cynnig yn cwrdd â'r holl feini prawf â blaenoriaeth a restrwyd? Er enghraifft, pan fo prosiect yn mynd i'r afael â sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb, ee trafndiaeth, a oes angen iddo hefyd fynd i'r afael â thlodi tanwydd, tlodi mewn gwaith a chynhwysiant digidol?
Ateb:	Nac oes, nid oes angen i bob Datganiad o Ddiddordeb gael ei sgorio yn erbyn yr holl feini prawf a restrwyd. Er hynny, byddant yn cael eu rhoi yn nhrefn teilyngdod ar sail y sgôr derfynol (hy y sgôr a roddir i'r Datganiad o Ddiddordeb ar draws pob un o'r 6 maen prawf). Bydd y syniadau a gyflwynir ar gyfer rhai o'r prosiectau yn sgorio yn erbyn pob un o'r meini prawf, neu yn erbyn fwy nag un o'r 4 maen prawf a osodwyd ar gyfer trechu tlodi. Mae'n bosibl na fydd eraill ond yn sgorio yn erbyn un maen prawf.
Cwestiwn:	Yn y ddogfen Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig: Meini Prawf a Ffurflen Gais, mae'r adran ar weithgareddau sy'n mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith yn awgrymu bod hyfforddeiaethau a gwella sgiliau yn weithgareddau. Onid ystyrir y rheini yn weithgareddau referniw?
Ateb:	Mae'r Gronfa hon wedi'i chyfyngu i arian ar gyfer buddsoddi ac ni ellir cefnogi hyfforddeiaethau a/neu brentisiaethau'n uniongyrchol. Fodd bynnag, gall y Gronfa gefnogi, er enghraifft, cyfleusterau gofal plant (nid y gwaith o redeg gwasanaeth gofal plant) a/neu drafndiaeth i sicrhau bod y cyfleoedd hynny o fewn cyrraedd pobl.
Cwestiwn:	A oes unrhyw gyfyngiadau o ran lleoliadau daearyddol yn cael eu gosod ar yr ymgeiswyr? Mae Nodiadau Cyfarwyddyd y Gronfa yn rhestru wardiau gwledig a wardiau canolfan wasanaethu ynghyd â'r Grwpiau Gweithredu Lleol.
Ateb:	Mae'r Gronfa hon yn targedu ar sail lleoliadau daearyddol (y wardiau gwledig a wardiau canolfan wasanaethu a restrir yn Atodiad A y Nodiadau Cyfarwyddyd). Mae'r wardiau hynny wedi'u lleoli yn yr ardaloedd sy'n gymwys o dan Strategaethau Datblygu Lleol y Grwpiau Gweithredu Lleol. Rhaid i bob ymgeisydd drafod eu syniadau a'u cynigion gyda Grŵp Gweithredu Lleol LEADER ar gyfer eu hardal cyn iddynt gyflwyno eu cais i Lywodraeth Cymru. Mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod y Grwpiau Gweithredu Lleol yn gallu gwirio a yw'r syniadau a'r cynigion yn cydymffurfio â blaenoriaethau'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer eu hardal. Hefyd, os oes angen, bydd modd iddynt gynnig cymorth i lunio'r cynigion.

Cwestiwn:	Nid ydwyf wedi llwyddo i ddod o hyd i fap Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer Rhaglen 2014-2020 – oes un wedi'i ryddhau? Hefyd, a oes angen i eiddo fod wedi'i leoli o fewn ffiniau daearyddol Grŵp Gweithredu Lleol er mwyn gwneud cais am arian o'r Gronfa hon?
Ateb:	Gellir dod o hyd i fap Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER ar dudalennau Rhwydwaith Gwledig Cymru drwy ddilyn y ddolen http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/local-action-groups/?skip=1&lang=cy Mae'r Gronfa hon at ddiben y wardiau a restrir yn Atodiad A o'r canllawiau felly bydd yn rhaid i'r eiddo fod o fewn y wardiau hynny. Byddai'n bosibl i brosiect ymestyn i wardiau sy'n dod o dan mwy nag un Grŵp Gweithredu Lleol LEADER gan olygu y byddai'n rhaid cysylltu â mwy nag un Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer y Datganiad o Ddiddordeb.
Cwestiwn:	A all fferm (busnes amaethyddol) gael ei hystyried yn Fenter Fach i Ganolog o dan y Gronfa hon?
Ateb:	Caiff busnesau ffermio wneud cais o dan is-fesur 7.7 y Gronfa, cyn belled â'u bod yn Fusnesau Bach neu Ganolog.
Cwestiwn:	A allwch gadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig erbyn y cam Datgan Diddordeb, neu a fyddai'n iawn eu cael erbyn y cam ymgeisio.
Ateb:	Dim ond gwybodaeth amlinellol sydd ei hangen arnom yn y cam Datgan Diddordeb. Pan ddaw'r cam cyflwyno cais, bydd gofyn ichi allu cyflwyno caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig.
Cwestiwn:	Mae Cwestiwn 3 y ffurflen Datgan Diddordeb yn gofyn am gyfanswm costau'r prosiect – a wnaiff amcangyfrifon y tro yn y cam Datgan Diddordeb neu a oes angen costau terfynol? (h.y. a oes angen i'r grŵp cymunedol sicrhau dyfynbrisiau terfynol yn y cam hwn?).
Ateb:	Nid ydym yn gofyn am fanylion y gwariant terfynol yn y cam Datgan Diddordeb. Os aiff yr ymgeisydd trwyddo i gam 2 a chyflwyno cais, bydd gofyn i'r costau fod yn gywir bryd hynny. Bydd gofyn cyflwyno cynllun datblygu manwl gyda'r cais, fydd yn cynnwys esboniad o'r holl gostau.
Cwestiwn:	A gaiff ymgeisydd gyflwyno cais i'r Gronfa i gynnal gwaith cyfalaf ar adeilad ar les?
Ateb:	Ar gyfer prosiect buddsoddi cyfalaf fel adnewyddu neu ailddodrefnu adeilad, perchennog yr eiddo ddylai gyflwyno'r cais neu les-ddaliwr yr eiddo os oes tystiolaeth bod y perchennog wedi rhoi caniatâd penodol i gynnal y gwelliannau. Byddwn yn gwrthod cais gan drydydd parti sydd heb gysylltiad â'r perchennog, fel mudiad cymunedol a oedd yn defnyddio'r adeilad ond nad oedd ganddo hawl cyfreithiol ar yr eiddo. Byddai lês treigl yn dderbyniol, h.y. ei fod yn cael ei adnewyddu'n awtomatig ar ddiwedd pob mis ond byddem am i gytundeb y lês ddangos am faint y disgwylir i'r adeilad gael ei feddiannu fel bod modd gweld mantais y costau adnewyddu, sef rhyw bum mlynedd ar ôl gorffen y gwaith.

Cwestiynau Penodol ar gyfer y Cam Ymgeisio Llawn

Fersiwn: 2

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 18

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 5 of 7

Os oes gennych cwestiwn am y gyfnod ymgeisio, e-bostiwrch:SMU@gov.Wales

Cwestiwn:	Pryd bydd angen imi ddangos tystiolaeth bod gennyf arian cyfatebol?
Ateb:	Gallwch ddweud yn y cam ymgeisio o ble daw'r arian cyfatebol, ond nid oes angen tystiolaeth eto. Bydd angen tystiolaeth pan fyddwch yn hawlio'r arian.
Cwestiwn:	Rwy'n cymryd na chaf hawlio arian tan wedi imi ei wario (yn ôlweithredol)?
Ateb:	Hawli'r pob arian o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ar ôl gwario'r arian. Mae hawliadau ôlweithredol yn cynnwys yr arian a wariwyd gan yr ymgeisydd a thystiolaeth o'r gwariant h.y. datganiadau banc ac anfonebau ac ati. Cytunir ar ddyddiad dechrau'r prosiect â'r ymgeisydd (noddwr y prosiect) cyn cynnal yr arfarniad. Felly cyhoeddir y dyddiad hwn yn Llythyr Cymeradwyo'r Grant. Mae'r dyddiad hwn yn bwysig gan fod holl broffil cynnal y prosiect yn seiliedig ar y dyddiad hwn.
Cwestiwn:	Sut mae mudiad sy'n rhedeg prosiect o'r Gronfa yn trin ffioedd trefniadol mewnol neu drosglwyddiadau mewnol.
Ateb:	<p>O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ni chaiff corff sector cyhoeddus, sefydliad na busnes hawlio trosglwyddiadau mewnol rhwng adrannau neu dimau o fewn yr endid sy'n elwa ar y rhaglen. Gallai fod gan gronfeydd eraill yr UE reolau gwahanol a gallai rhai rheolau amrywio rhwng cynlluniau o fewn yr un gronfa. Pan fydd un adran yn cynhyrchu datganiad trosglwyddo arian, nid oes tystiolaeth bod yr arian hwnnw wedi'i wario. Er enghraifft, os yw adran y penseiri yn anfon "anfoneb" at dîm y prosiect, ni chewch wneud taliad a dangos tystiolaeth o'r taliad hwnnw trwy ddatganiad banc. Felly nid oes tystiolaeth bod yr arian wedi'i wario ac felly, nid yw'n gymwys.</p> <p>Bydd Canllawiau Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn cael eu newid i'w gwneud yn glir y cewch ddefnyddio cost sy'n cyfateb i amser y pensaer fel cyfraniad Arian Cyfatebol Cost Wirioneddol at y prosiect gan mai gwerth y grant mwyaf yw 80% ac y caniateir ariannu cyfatebol mewn da o dan y cynllun.</p> <p>Rwy'n deall y gallai cynlluniau eraill o dan gronfeydd eraill ddehongli pethau'n wahanol ond yn y sefyllfa hon lle bo'n rhaid defnyddio'r grant at ddiben gwariant cymwys gyda thystiolaeth o'r gwariant hwnnw, nid oes modd caniatáu trosglwyddiadau mewnol.</p>
Cwestiwn:	Faint o amser sydd ei angen i asesu fy nghais llawn?
Ateb:	Mae gennym darged o naw deg niwrnod gwaith. Nid yw'n cynnwys yr amser sydd ei angen ar ymgeisydd i ymateb i ymholiadau. Bydd swyddog prosiect wedi'i neilltuo ar gyfer pob cais i ateb cwestiynau.
Cwestiwn:	A fyddwch yn cymharu cynnwys fy nghais llawn â chynnwys fy Natganiad o Ddiddordeb?
Ateb:	Byddwn. Bydd Uned Rheoli'r Cynllun yn cadarnhau a yw'r cais llawn yn gyson â'r cynnig a ddisgrifir yn y Datganiad o Ddiddordeb. Ni chaiff yr wybodaeth yn y Datganiad ei hasesu fel rhan o'r asesiad o'r cais llawn. Caiff y cais llawn ei asesu yn unol â'r Canllawiau a rheolau'r cynllun.
Cwestiwn:	A oes angen i gyfanswm fy mhenawdau costau fod yn fanwl gywir yn y cam ymgeisio llawn?
Ateb:	Mae costau bras neu amcangyfrifon yn iawn yn y cam ymgeisio, cyn belled

Fersiwn: 2

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 18

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 6 of 7

	â'u bod yn rhesymol a bod modd eu cyfiawnhau. Nid oes yn rhaid cadw at brosesau caffael nes bod y grant wedi'i roi.
Cwestiwn:	Sut byddwch chi'n trin TAW yn y cais llawn?
Ateb:	Os nad oes modd hawlio'r TAW yn ôl, yna gellir ei hawlio yn ôl fel rhan o'r taliad grant. Dylech nodi TAW anadferadwy fel pennawd cost ar wahân yn y tabl ym mhennod Gwerth am Arian cynllun y prosiect (ffurflen gais).
Cwestiwn:	Rhowch ragor o wybodaeth ynghylch beth sydd ei hangen ym mhennod F&C cynllun y prosiect?
Ateb:	Darperir gwybodaeth yn y Canllaw sut i Ymgeisio. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r SMU: SMU@gov.Wales
Cwestiwn:	Sut yr ymdrinnir â chostau proffesiynol yn y cais llawn?
Ateb:	Dylid rhestru ffioedd proffesiynol fel cost i'r prosiect yn y bennod 'Gwerth am Arian' yng nghynllun y prosiect (ffurflen gais) ac esbonio sut mae'r costau hyn wedi'u cyfrif. Pwysig: ni chaiff ffioedd proffesiynol a thechnegol ar gyfer dylunio ac adeiladu fod yn fwy na 12% o'r costau cyfalaf cymwys.
Cwestiwn:	Gwyddom fod angen cadw at reolau caffael/tendro cystadleuol trwy gyhoeddi'n gofynion ar www.sell2wales.gov.wales , ond a oes angen inni gynnal ymarferiad caffael cyn gwybod ein bod wedi cael grant?
Ateb:	Nid oes angen tystiolaeth o'r broses gaffael lawn gyda'ch cais. Os caiff eich prosiect ei gymeradwyo, yna bydd angen cadw tystiolaeth gaffael.
Cwestiwn:	A oes angen dilyn Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu wrth adnewyddu adeiladau?
Ateb:	Nid oes gofyn cynnal BREEAM wrth adnewyddu adeiladu, dim ond wrth godi adeiladau newydd.
Cwestiwn:	Esboniwch sut mae dewis dangosyddion. Beth maen nhw'n ei golygu a pha dystiolaeth sydd ei hangen?
Ateb:	Rhoddir gwybodaeth am ddangosyddion yn y pecyn Sut i Ymgeisio a roddir fel rhan o'r gwahoddiad i ran 2. Mae'r canllaw'n esbonio pa ddangosyddion sy'n orfodol ac yn nodi'r nifer gofynnol o ddangosyddion lefel achos sydd eu hangen (2 yn achos y Gronfa Ddatblygu). Rhoddir diffiniadau a'r dystiolaeth sydd ei hangen.
Cwestiwn:	Beth yw'r disgwyliadau o ran gwerthuso'r prosiect?
Ateb:	Nid oes gofyn gwerthuso prosiectau'r Gronfa Ddatblygu.